Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf: Gwasanaethau Deintyddol Parc Iechyd Keir Hardie

22 Chwefror 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu, pan wneir cais i fodloni anghenion unigol. Am fwy o gymorth, cysylltwch â ni.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost:** hiw@cymru.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-6608-1
© Hawlfraint y Goron 2016

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ....................................................................................................2

2. Cyd-destun ....................................................................................................3

3. Crynodeb ....................................................................................................4

4. Canfyddiadau ....................................................................................................5

Ansawdd Profiad y Claf ....................................................................................................5

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol ....................................................................................................8

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ....................................................................................................13

5. Y Camau Nesaf ....................................................................................................14

6. Methodoleg ....................................................................................................15

Atodiad A ....................................................................................................17

# 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae AGIC yn canolbwyntio’n bennaf ar y canlynol:

- Cyfrannu at wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Barc Iechyd Keir Hardie, Heol Aberdâr, Merthyr Tudful, CF48 1BZ, ar 22 Chwefror 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Gwasanaethau Deintyddol Parc Iechyd Keir Hardie yn bodloni’r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau mae gwasanaethau’n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn gydnaws â darpariaeth gofal diogel ac effeithiol. Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.
- Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Gwasanaethau Deintyddol Parc Iechyd Keir Hardie yn darparu gwasanaethau deintyddol i gleifion yn yr ardal a adwaenir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Fodd bynnag, mae cysylltiad gweinyddol cryf gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro oherwydd natur benodol contract y deintydd. Mae Gwasanaethau Deintyddol Parc Iechyd Keir Hardie yn cynnig yr ystod lawn o driniaeth ddeintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys deintydd a'i nyrs ddeintyddol. Mae rheolwr practis a dau dderbynnydd penodol.

Mae'r practis ar lawr cyntaf y ganolfan iechyd, sydd newydd ei hadeiladu. Trefnir clinigau deintyddol cymunedol o'r parc iechyd, ond canolbwyntiodd yr arolygiad hwn dim ond ar y deintydd sy'n meddu ar gontract Gwasanaethau Deintyddol Personol.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, canfuom fod Gwasanaethau Deintyddol Parc Iechyd Keir Hardie yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol o ansawdd uchel ar gyfer cleifion, ac mae'r cleifion yn uchel eu parch tuag ato.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn ymddangos yn hapus yn eu swyddogaethau ac yn deall eu cyfrifoldebau.
- Mae digon o gyfleusterau clinigol ar gael, ac roeddent yn ymddangos yn lân ac yn daclus.
- Ar y cyfan, mae'r cofnodion cleifion o safon uchel.
- Mae trefniadau ar waith ar gyfer cynnal sganiau pelydr-X mewn ffordd ddiogel.
- Mae offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio yn y modd priodol.
- Mae gwastraff clinigol yn cael ei drin, ei storio, a'i waredu mewn modd diogel.
- Cynhelir archwiliadau a chyfarfodydd staff yn rheolaidd a chânt eu defnyddio i wella arferion.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Dylid cynnal asesiadau risg ar gyfer sylweddau peryglus er mwyn cynnwys gwybodaeth fanwl ynglŷn â'r mesurau rheoli sydd wedi'u rhoi ar waith.
- Dylid sicrhau bod holl gofnodion cleifion yn cynnwys cyngor ar alcohol a rhoi'r gorau i ysmygu a chofnodi cydsyniad deallus.
- Mae'n bwysig cadw'r holl ddogfennau ynghylch dadheintio cyfarpar yn lleol at bwrpasau archwilio ac arolygu.
- Dylai'r practis ddangos y polisi cwyno a datblygu dull i gasglu adborth anffurfiol neu gwynion llafar.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i ddarparu profiad cadarnhaol ar gyfer ei gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd drwy holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol dros ben. Roedd gan y practis system ar waith ar gyfer ceisio adborth gan y cleifion yn rheolaidd, trwy arolwg o gleifion, fel modd o asesu ansawdd y gwasanaeth. Roedd man aros dymunol gyda thystiolaeth o ystod o ddeunydd hyrwyddo iechyd deintyddol.

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu safbwyntiau am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd ugain o holiaduron ac roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Croesawgar dros ben."*
>
> *"Rwy bob tro'n fodlon iawn gyda'r driniaeth a'r gofal. Mae'r staff yn gyfeillgar iawn."*
>
> *"Rwy wastad wedi gweld bod staff y dderbynfa, y deintydd a'r nyrsys deintyddol yn gymwynasgar dros ben ac yn galonogol. Mae iechyd cyffredinol y claf wastad yn cael ei ystyried yn ogystal â'i ofal deintyddol. Does dim angen i unrhyw un sydd â ffobia o ddeintyddion boeni am fynychu'r clinig hwn am fod eu pryderon yn cael eu tawelu'n fuan. Baswn i'n argymell y practis hwn i unrhyw un."*

**<u>Gofal gydag urddas</u>**

Nododd pob un o'r cleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis, a'u bod yn cael croeso mawr gan y staff. Gwelsom hefyd y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd y staff yn ei ddefnyddio tuag at y cleifion. Roedd gan y practis drefniadau i amddiffyn preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys lle i gleifion gynnal sgyrsiau preifat gyda staff a system i amddiffyn cyfrinachedd wrth ddelio â negeseuon ffôn gan gleifion. Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent yn eu derbyn.

**<u>Gofal amserol</u>**

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol. Cwblhawyd 20 holiadur ac ni chafodd yr un o'r cleifion a

gwblhaodd yr holiaduron oediadau wrth aros i weld y deintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Dywedodd tri chwarter y cleifion wrthym hefyd eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Roedd arwydd ar ffenestr y practis yn dangos y rhif cyswllt mewn argyfwng. Roedd un arall ar wal yr ystafell aros hefyd, yn y daflen wybodaeth i gleifion, ac yn neges ffôn y practis.

**Cadw'n iach**

Mae'r parc iechyd wedi bod ar agor am dair blynedd yn unig ac mae'r dderbynfa a'r ystafell aros yn darparu argraff gyntaf ddeniadol, olau ac eang. Gwelwyd tystiolaeth o ddeunydd hyrwyddo iechyd deintyddol ar ffurf posteri lliwgar ar waliau'r dderbynfa.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron eu bod wedi derbyn gwybodaeth briodol ynglŷn â'u triniaeth. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gofynnwyd iddynt ym mha iaith yr hoffent gyfathrebu, a gwelsom dystiolaeth bod gwybodaeth ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg.

**Gofal unigol**

Dywedodd y staff wrthym yr atgoffwyd cleifion i roi adborth ar lafar ynglŷn â'u safbwyntiau ar y gwasanaeth, pan oeddent yn mynychu'r practis. Dywedwyd wrthym y gwneir arolygon cleifion a bod grŵp sicrwydd ansawdd yn adolygu'r data. Dangosodd hyn fod systemau ar waith er mwyn galluogi cleifion i roi adborth parhaus i'r practis.

Pan ofynnwyd i'r cleifion a gwblhaodd yr holiaduron sut oedd gwneud cwyn ynglŷn â'u gofal neu eu triniaeth, gwnaeth dwy ran o dair ohonynt nodi eu bod yn gwybod sut i wneud, a'u bod wedi gweld yr hysbysiad yn yr ystafell aros. Roedd poster ar yr hysbysfwrdd ynglŷn â threfniadau'r GIG o ran gwneud cwyn (a adwaenir fel 'Gweithio i Wella'), ond nid oedd digon o fanylion ynghylch y raddfa amser i ymateb i bryderon. Fodd bynnag, ychwanegwyd copi o'r polisi gyda'r graddfeydd amser priodol yn ystod ein harolygiad.

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

Dylid arddangos hysbysiad cwynion clir. Dylai hyn gynnwys graddfeydd amser ar gyfer ymateb i gwynion.

Ymatebir i gwynion yn ganolog gan y bwrdd iechyd yng Nghaerdydd. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi derbyn nifer bach iawn o gwynion. Anfonir unrhyw bryderon/cwynion a dderbynnir i'r bwrdd iechyd, sy'n ymateb iddynt. Ni welwyd tystiolaeth bod cwynion llafar/anffurfiol yn cael eu nodi nac yn cael eu

dadansoddi er mwyn gweld unrhyw dueddiadau. Awgrymwyd y dylai'r practis weithredu system i gasglu a chofnodi cwynion llafar.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis weithredu system i gasglu cwynion llafar.***

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Canfuom fod y cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Roeddem yn fodlon bod trefniadau ar waith er mwyn amddiffyn cleifion a staff rhag heintiau y gellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod yr offer pelydr-X a'r broses ddadheintio yn cael eu defnyddio mewn modd priodol a diogel.**

### Gofal diogel

*Cyfleusterau clinigol:*

Canfuom fod y practis yn cael ei reoli gyda'r bwriad o gyrraedd y safonau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Roedd y practis yn darparu amgylchedd glân. Roedd toiled neillryw hygyrch i'r cleifion a dau doiled i'r staff. Gwelwyd bod y toiledau'n cael eu cynnal yn dda iawn. Roedd y coridorau'n olau ac yn awyrog. Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafell driniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer perthnasol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Gwelsom fod yr ystafell driniaeth yn lân ac yn daclus.

Trefnwyd yr ystafell driniaeth yn dda i helpu'r nyrsys i weithio'n effeithlon. Roedd system effeithiol ar waith ar gyfer symud offer deintyddol oedd wedi cael eu defnyddio o'r ystafell driniaeth i'r ystafell ddadheintio, a hynny mewn cynwysyddion wedi'u selio oedd wedi'u nodi'n 'fudr'. Unwaith i'r offer fod trwy'r broses lanhau, fe'u paciwyd a'u labelwyd yn glir gyda dyddiad cyn cael eu storio mewn hambyrddau plastig mewn ardal neilltuedig. Dywedodd y practis wrthym mai eu polisi yw cadw'r offer wedi'u pacio am fis yn unig, er eu bod yn ymwybodol y gellir cadw offer wedi'u pacio am hyd at flwyddyn. Canfuom fod dau ddarn o offer wedi cael eu cadw am bythefnos y tu hwnt i'r mis.

Nid oeddem yn medru arolygu'r peiriant sy'n darparu aer cywasgedig i'r ystafell driniaeth (cywasgydd) oherwydd fe'i lleolir yn nho'r ganolfan iechyd. Nid oedd tystysgrif gwiriad diogelwch ar gael ychwaith, oherwydd cwblheir gwaith cynnal a chadw'r offer hyn yn ganolog.

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

***Dylid cadw tystiolaeth o wiriadau'r cywasgydd yn lleol at bwrpas archwiliadau ac arolygiadau.***

Gwnaethom nodi bod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cwblhau ar yr holl offer trydanol i helpu i sicrhau bod dyfeisiau bach yn saff i'w defnyddio. Roedd offer

tân ar gael a chafodd eu gwirio ym mis Mai 2015. Roedd arwyddion clir ar gyfer yr allanfeydd brys. Nid oedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn cael ei harddangos.

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

Dylid arddangos tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn yr adeilad.

Roedd ffeil ar gael, a oedd yn cynnwys dalenni gwybodaeth yn ymwneud â Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd, ond nid oedd unrhyw asesiadau risg ar gyfer cemegion yn cael eu cadw ar y safle. Roedd y cemegion i gyd yn cael eu cadw'n ddiogel y tu ôl i ddrysau dan glo. Fodd bynnag, roedd angen cymryd camau gweithredu ar unwaith o ran yr asesiadau risg, sy'n dangos y mesurau rheoli presennol i atal anafiadau.

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

***Dylid rhoi asesiadau risg ar waith, ochr yn ochr â phob dalen wybodaeth, ar gyfer yr holl gemegion a gedwir yn y safle.***

*Offer radiograffeg:*

Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg (pelydr-X), er bod y deintydd ar ei hôl hi gyda'i hyfforddiant. Rhoddwyd trefniadau ar waith yn syth ar ôl yr arolygiad er mwyn i'r deintydd gwblhau ailhyfforddiant. Dywedwyd wrth y practis y dylai anfon copi o'r dystysgrif hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio i AGIC.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i AGIC dderbyn copi o dystysgrif hyfforddiant RhYÏ(DM) y deintydd.***

Mae'r trefniadau cyfredol ar gyfer diogelu cleifion a staff wrth i'r peiriant orthopantomogram (OPG)[1] gael ei ddefnyddio yn dderbyniol. Gwelsom dystiolaeth o wiriadau diogelwch, gwaith cynnal a chadw cyfarpar, ac o gynnal profion. Gwelwyd hefyd rheolau lleol ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X yn y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd ac ynghlwm wrth y peiriant yn yr ystafell driniaeth. Nid oedd y rhain yn cynnwys enwau'r goruchwylydd amddiffyn rhag

[1]Mae peiriant OPG yn tynnu pelydr-X panoramig o'r ên uchaf ac isaf, gan roi golwg ddau-ddimensiwn o glust i glust.

ymbelydredd na'r ymgynghorydd amddiffyn rhag ymbelydredd, ond cywirwyd y gwall hwn yn ystod yr ymweliad arolygu.

Cadarnhaodd y staff hefyd fod ansawdd y sganiau pelydr-X a gymerwyd yn cael ei ystyried a'i gofnodi bob dydd. Roedd y practis wedi cwblhau archwiliad pelydr-X deintyddol yn 2014. Dywedwyd wrth y practis y dylai gwblhau archwiliad trwyadl o leiaf yn flynyddol, neu bob chwe mis yn unol â'r arfer gorau.

*Cadw cyffuriau a chyfarpar argyfwng:*

Roedd gweithdrefnau rhagorol ar waith gan y practis i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Gwelsom gofnodion a ddangosodd fod y tîm wedi derbyn hyfforddiant ar sut i berfformio adfywio cardio-pwlmonaidd, ac roedd swyddog cymorth cyntaf penodedig. Mae meddygon a nyrsys yn adeilad y ganolfan iechyd hefyd.

Roedd y cyfarpar dadebru a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng yn cael eu cadw mewn cwpwrdd ar wahân, a byddent ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (llewyg) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth bod system effeithiol ar waith i wirio'r cyfarpar a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng yn wythnosol.

*Dadheintio:*

Mae gan y practis ardal ddadheintio neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Roedd dwy ystafell, un wedi'i neilltuo ar gyfer offer glân a'r llall ar gyfer offer budr, gyda dau olchydd diheintio ar waith. Roedd yr ardal i'w gweld yn lân, ac yn rhydd rhag annibendod. Roeddem yn fodlon bod gweithdrefnau priodol a gweithdrefnau a oedd wedi'u hen sefydlu ar waith i leihau'r risg o groes-heintio er mwyn amddiffyn y cleifion a'r staff. Gwelsom fod sinc penodol i olchi dwylo. Roedd y nyrs wedi derbyn hyfforddiant dadheintio ond nid oedd ganddi ei thystysgrif wrth law. Dywedwyd wrth y practis y dylid cadw copi o dystysgrifau hyfforddiant dadheintio'r staff.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r practis roi copïau o dystysgrifau sy'n cadarnhau hyfforddiant staff mewn dadheintio i AGIC.***

Dangosodd y practis dystiolaeth inni ei fod wedi cwblhau archwiliad rheoli heintiau rhagorol yn 2015, a gydymffurfiodd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05). Roedd cynllun gweithredu manwl ynghlwm i ddangos pa gamau gweithredu a nodwyd a phryd y byddent yn cael eu rhoi ar waith.

Dywedwyd wrthym gan reolwr y practis fod yr offer i gyd yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Yn wir, roedd y peiriannydd wedi bod yn y practis i wasanaethu'r golchwyr diheintio ar y diwrnod cyn yr arolygiad. Yn anffodus, canfuom nad oedd tystysgrifau cynnal a chadw ar gyfer yr offer ar gael yn y practis oherwydd cwblheir yr holl waith cynnal a chadw a gwasanaethu yn ganolog gan y bwrdd iechyd.

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

***Dylai'r holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â dadheintio fod yn gyfredol a chael eu cadw'n lleol at ddibenion archwilio ac arolygu. Dylai'r llyfr cofrestru ar gyfer yr offer sterileiddio gynnwys yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â chylch bywyd yr offer, o adeg eu prynu hyd at eu gwaredu.***

Roedd y practis yn cofnodi gwiriadau dyddiol ac wythnosol ar y peiriannau sterileiddio er mwyn sicrhau bod yr offer yn aros mewn cyflwr da a bod y broses ddadheintio'n effeithiol.

*Gwaredu gwastraff:*

Roeddem yn gallu gweld bod gan y practis system ragorol ar waith ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol a diogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Gwelsom hefyd fod gwastraff wedi cael ei ddidoli a'i roi mewn bagiau/cynwysyddion o wahanol liwiau, yn unol â'r dull cywir o'i waredu. Roedd y rhain wedi eu storio mewn rhan o'r adeilad a oedd dan glo, cyn iddynt gael eu casglu.

*Diogelu*

Gwelsom fod gan y practis bolisi diogelu ar waith er mwyn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed a gwelsom eu tystysgrifau.

## Gofal effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod nifer fawr o archwiliadau wedi'u cwblhau gan y practis, gan gynnwys rheoli heintiau, archwiliadau radiograffeg, cadw apwyntiadau, a gofal ceg yr henoed. Nid oedd rheolwr y practis yn ymwybodol bod unrhyw ddull datblygu tîm yn cael ei ddefnyddio. Gwnaethom gynghori'r practis i roi dull datblygu tîm ar waith er mwyn caniatáu i'r tîm deintyddol ganolbwyntio ar y ffordd y maent yn gweithio ac i alluogi pawb yn y practis i feddwl am ansawdd y gofal.

**Cofnodion cleifion:**

Gwelwyd tystiolaeth bod cofnodion cleifion o safon uchel yn gyffredinol, a ddangosodd fod gofal wedi cael ei gynllunio a'i ddarparu i sicrhau diogelwch a lles cleifion.

Adolygwyd sampl o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, canfuom fod cofnodion gofal y cleifion yn cynnwys gwybodaeth ddigonol ynghylch trafodaethau a gynhaliwyd ynglŷn â dewisiadau triniaethau, a chadarnhaodd yr holiaduron cleifion hyn. Cafwyd tystiolaeth hefyd o gynllunio triniaeth. Cafwyd tystiolaeth o gadw cofnodion da o’r gofal a thriniaeth a gynlluniwyd i gleifion. Gwelsom hefyd dystiolaeth o gydlofnodion i ddangos bod y deintydd wedi gwirio hanes meddygol y cleifion. Roedd yn amlwg bod y gwaith ysgrifennu nodiadau clinigol yn ardderchog ar y cyfan. Fodd bynnag, dangosodd ambell gofnod nad oedd tystiolaeth o gyngor ar roi'r gorau i ysmygu, sgrinio am ganser, neu gyngor ar alcohol, ac ni chofnodwyd cydsyniad deallus yn y nodiadau clinigol ar bob adeg.

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

***Rhaid i nodiadau clinigol gynnwys tystiolaeth o gyngor rhoi'r gorau i ysmygu, cyngor alcohol, sgrinio am ganser, a chydsyniad deallus.***

Roedd tystiolaeth bod cleifion yn cael cynnig sganiau pelydr-X ar adegau priodol. Roedd ansawdd y sganiau pelydr-X yn cael ei fonitro ac roedd pob sgan pelydr-X yn cael ei gadw ar ffurf electronig.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith yn y practis i gadw copi o gofnodion cleifion wrth gefn er mwyn sicrhau dilyniant o ran gofal. Cedwir y cofnodion papur mewn cypyrddau ffeilio cloadwy yn y swyddfa.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn y practis. Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith. Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu rolau ac yn gymwys i gyflawni eu cyfrifoldebau.**

Mae'r practis wedi bod yn y parc iechyd ers 2012 yn unig. Cyn hynny, fe'i adwaenwyd fel y 'Hollies' ac roedd wedi'i leoli yng nghanol Merthyr Tudful mewn adeilad a adeiladwyd tua 40 o flynyddoedd yn ôl.

Cyfrifoldeb rheolwr y practis yw rheoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelsom ffolderi sefydlu wedi'u cwblhau. Roedd y rhain yn drwyadl iawn a gwelsom fod staff newydd yn mynychu'r ysbyty deintyddol yng Nghaerdydd hefyd ar gyfer cwrs sefydlu clinigol. Mae pob aelod o staff yn cael defnyddio'r cyfrifiadur, sy'n cynnwys y polisïau a gweithdrefnau, ac mae llawlyfr y gweithwyr yn nodi bod yn rhaid iddynt sicrhau eu bod yn eu darllen. Cwblheir gwerthusiadau blynyddol a gosodir amcanion. Gwelsom gofnodion cyfarfodydd tîm chwarterol lle caiff staff y cyfle i wrando ar gyflwyniadau ar wahanol bynciau a dysgu ohonynt. Gall y pynciau amrywio o adborth archwiliadau i ddysgu ynglŷn â dementia.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Nid oedd arwyddion yn dangos enw a chymwysterau'r deintydd. Argymhellwyd y dylai'r practis gywiro hyn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid arddangos enw a chymhwyster pob aelod o staff sydd wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.***

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwnedd Hepatitis B pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis. Cadarnhaodd y nyrs ddeintyddol ei bod hi wedi cwblhau cwrs llawn y brechiadau, ond nid oedd cofnod ar gael.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid anfon cadarnhad o statws imiwnedd Hepatitis B y nyrs ddeintyddol at AGIC.***

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau oedd ar waith, a gweld tystiolaeth eu bod yn adlewyrchu'r arferion gwirioneddol.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yng Ngwasanaethau Deintyddol Parc Iechyd Keir Hardie yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth galon dull AGIC o gynnal arolygiadau o fewn GIG Cymru. Bwriedir i'r saith thema weithio ar y cyd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac

---

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredir safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Gwasanaethau Deintyddol Parc Iechyd Keir Hardie

## Dyddiad yr arolygiad: 22 Chwefror 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Graddfa amser |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 7 | Dylid arddangos hysbysiad cwynion clir sy'n cynnwys graddfeydd amser ar gyfer ymateb i gwynion. | Safonau Iechyd a Gofal 6.3 | | | |
| 8 | Dylai'r practis weithredu system i gasglu cwynion llafar. | Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5.1.7 | | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 9 | Dylid cadw tystiolaeth o wiriadau i'r cywasgydd yn lleol at ddibenion archwilio ac arolygu. | Rheoliadau Systemau Pwysedd a | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Graddfa amser |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Chynwysyddion Nwy Cludadwy 1989, Rheoliadau Diogelwch Systemau Pwysedd 2000 | | | |
| 10 | Rhaid darparu copi o dystysgrif hyfforddiant RhYÏ(DM) y deintydd i AGIC. | | | | |
| 10 | Dylid arddangos tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn yr adeilad. | Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2.4.1, 5.1.3 – 5.1.5 | | | |
| 10 | Dylid gosod asesiadau risg wrth ymyl pob dalen wybodaeth ar gyfer pob cemegyn a gedwir ar y safle. | Safonau Iechyd a Gofal<br>2.1 | | | |
| 11 | Dylai'r holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â dadheintio fod yn gyfredol a chael eu cadw'n lleol at ddibenion archwilio ac arolygu. Dylai'r llyfr cofnodion ar gyfer yr offer sterileiddio gynnwys yr holl | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05<br>4.15, 11.14 | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Graddfa amser |
|---|---|---|---|---|---|
| | wybodaeth sy'n berthnasol â chylch bywyd yr offer, o adeg eu prynu hyd at eu gwaredu. | | | | |
| 11 | Rhaid i'r practis ddarparu copïau o dystysgrifau sy'n cadarnhau bod staff wedi derbyn hyfforddiant dadheintio i AGIC. | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, 1.26 | | | |
| 12 | Dylid cwblhau protocol hyfforddiant dadheintio gyda chofnodion unigol. | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, 1.26 – 2.4o | | | |
| 13 | Dylai nodiadau clinigol gynnwys cyngor ar roi'r gorau i ysmygu ac ar alcohol, cydsyniad deallus, a sgrinio am ganser. | Safonau Iechyd a Gofal 1.13.2, 4.1, 4.2,<br>5.1, 6.1 | | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 15 | Dylid arddangos enw a chymhwyster pob aelod o staff sydd wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. | Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6.10 | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Graddfa amser |
|---|---|---|---|---|---|
| 15 | Rhaid anfon cadarnhad o statws imiwnedd Hepatitis B y nyrs ddeintyddol at AGIC. | Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.2 | | | |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** ..................................................................................................

**Teitl:** ..................................................................................................

**Dyddiad:** ..................................................................................................